

Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 1 i 9 yn gynwysedig.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Yn bresennol: John Graystone (yn y Gadair), David Elis-Williams, Gayle Hudson, Cathy Clark, Caroline Davies, Toni Schiavone (Is-gadeirydd), Dafydd Rhys. Roedd gan y cyfarfod gworwm.

Yn mynychu: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm ac Adnoddau), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau Dynol), Stephen Thomas (Ysgrifennydd / Clerc y Cwmni); Megan Jones (cyfieithydd ar y pryd).

Ymddiheuriadau: Julie Cook, Chris Franks, Iwan Hywel, Gerry Jenson, June Jeremy, Sonia Reynolds (Is-gadeirydd), Guy Wallace Smith, Nick Taylor, Heather Willbourn.

2. Cofnodion y Busnes Cyfrinachol a'r Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 21 Mai 2018 a materion yn codi nad oeddent ar yr agenda

Cafodd cofnodion Busnes Cyfrinachol a Busnes Agored trafodion y cyfarfod ar 21 Mai 2018 yng Nghaerdydd eu cymeradwyo yn eu tro fel cofnodion cywir. Roedd y ddau fater a oedd yn codi yn deillio o gofnod 4 – **Materion gweithdrefnol yn ymwneud ag aelodaeth y Cyngor a'r Llywyddiaeth. Byddai'r mater yn ymwneud â chyfnod aelodau'r Cyngor yn y swydd a mater cylch gwaith a disgrifiad rôl y Llywydd yn cael eu cynnwys ar agenda cyfarfod y Cyngor ym mis Medi, er mwyn gwneud penderfyniad arnynt bryd hynny.**

3. Adroddiad Cryno'r Prif Weithredwr ar gyfer 2017-18

Fe'i bwriadwyd yn bennaf i fod yn grynodedb dathliadol o gyflawniadau addysgol yn ystod y flwyddyn ac y byddai ei gynnwys yn llunio sylfaen y rhifyn nesaf o **Bwletin**, a fyddai'n cael ei ddosbarthu'n eang ar-lein ac ar bapur. Byddai'r un fersiwn o **Bwletin**, a fyddai'n ymddangos cyn diwedd y mis, yn pwysleisio hefyd y rôl yr oedd partneriaethau adeiladol yn ei chwarae yn ein gwaith ac yn canmol gwaith y staff.

Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar adran 8 yr Adroddiad – *Strwythur a Diwylliant y Sefydliad*. O ran yr Uwch Dîm Rheoli oedd wedi'i ostwng i 3 o bobl, cydnabuwyd fod swyddi gwag parhaus dau Reolwr Rhanbarthol ac absenoldeb Rheolwr y Cwricwlwm a Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg, a benodwyd yn ddiweddar, a'r Rheolwr Cyflwyno Cenedlaethol, oherwydd salwch, yn golygu bod heriau ychwanegol wedi deillio o'r trefniadau dros dro a oedd wedi parhau am gyfnod hirach na'r disgwyl. Roedd rhannu cyfrifoldebau ar lefel yr Uwch Dîm Rheoli wedi lleihau'r broblem honno, ac roedd yn debygol y byddai cyfrifoldebau penodol yn cael eu trosglwyddo o'r Pennaeth Cwricwlwm ac Adnoddau i swydd y Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau Dynol yn y dyfodol agos. Pe bai oedi yn parhau mewn perthynas â materion staff a fyddai'n effeithio'n negyddol ar sefydlogrwydd neu berfformiad cyffredinol y sefydliad, yna sicraodd y Prif Weithredwr y byddai'n ymgynghori â thri swyddog y Cyngor cyn cyfarfod nesaf y Cyngor.

4. Diweddariad ar safle Coleg Harlech

Trafodwyd datblygiadau pellach ynghylch safle Harlech, gan ddechrau gyda chytundeb y brydles gyda Theatr Ardudwy. Soniodd David Elis-Williams am y gwelliant yng nghwrs trafodaethau gyda Bwrdd y Theatr, a'r ffaith roedd cyfraniadau syrfewyr ar y ddwy ochr yn dangos mai'r ail opsiwn a amlinellwyd yn y papur gerbron y Cyngor oedd yr un a ffafriwyd mewn egwyddor - bod y ddau barti yn cytuno ar setliad ar gyfer terfynu'r brydles yn gynnar, gyda Syrffwr Meintiau yn ei hardystio, a bod materion yn cael eu terfynu trwy setliad llawn a therfynol na allai'r naill barti na'r llall wneud hawliadau amdano yn y dyfodol. Ystyriwyd bod hyn yn well na chael prisiad ildio ar dymor heb ddarhod y brydles trwy gyd-benodi Syrffwr Cymwysedig, a fyddai'n galw am archwiliad trylwyr o holl ddata'r ddau barti er mwyn dod i gasgliad a fyddai'n ansicr i'r naill barti a'r llall, ac a fyddai'n cynnwys graddfa uwch o risg.

Bu'n ddefnyddiol cael yr ohebiaeth ddiweddar gan Gadeirydd Theatr Ardudwy (wedi'i chynnwys fel rhan o'r papurau), gan fod hon yn amlinellu sylfaen hawliad y Theatr ac yn galluogi ymgymryd â thrafodaeth ar y telerau yn yr ohebiaeth. Cyflwynwyd copi wedi'i gywiro o dudalen olaf (t.4) y papur â'r teitl 'Lease Surrender at Theatr Ardudwy', gan ddangos sut daethpwyd i ffigur y £75,760 yr oedd Theatr Ardudwy yn gofyn amdano, sef trwy gyfuniad o gostau llogi lleoliadau yn y dyfodol, ffioedd digwyddiadau sinema dros dro, rhent ar gyfer gofod swyddfa dros weddill cyfnod y brydles presennol, ac iawndal ar gyfer colledion anghyffredin yn ystod gaeaf 2017-18. Teimlwyd bod seiliau'n bodoli dros ostwng y cyfanswm hwn trwy ddadl resymol, a **rhoddodd y Cyngor yr awdurdod i Grŵp Llywio Harlech drafod yn hyblyg wrthgynnig is na'r hyn a hawliwyd, ond gan geisio osgoi cynnwys cyflafareddwr fel yr oedd yr opsiwn arall yn ei amlinellu.** Oherwydd ei bod hi'n hanfodol bwysig cael meddiant gwag ar adeilad y theatr - gyda syrfewyr wedi pwysleisio'n gyson bod hyn yn hollbwysig cyn gallu marchnata'r safle cyfan yn effeithiol - **gofynnwyd i'r Grŵp fwrw ymlaen â materion yn adeiladol.**

Ers cyfarfod blaenorol y Cyngor, roedd ail gynnig am safle Harlech wedi dod i law gan ddatblygwr lleol. Roedd Cyngor Gwynedd wedi cyhoeddi tendr ar gyfer dymchwel Gwesty cyfagos St. David's yn orfodol. Trafodwyd manylion y tir a berchenogir yn Astor Fields, gan gynnwys yr incwm presennol oddi wrth ffermwr ar gyfer ei ddefnyddio ar sail prydles.

O ran y llyfrgell, roedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru eisoes wedi bod ar y safle ac wedi mynd â dau ddarn o ddodrefn ac ychydig lyfrau o bwysigrwydd cenedlaethol oddi yno i'w cadw'n ddiogel, gyda bendith Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales. Roedd cynllun gweithredu â chostau wedi'i gyflwyno'n ddiweddar gan y Llyfrgellydd Cenedlaethol ac wedi'i ddisbarthu gyda'r papurau, ac roedd yn adlewyrchu newid mewn safbwynt ar gyfer y cydweithio arfaethedig. Soniodd rhai aelodau staff ac aelodau'r Cyngor eu bod o'r farn bod y £49,500 a oedd yn ofynnol ar ei gyfer yn adlewyrchu gwerth rhesymol am arian o ran cyflogi'r arbenigedd angenrheidiol; ond, fe wnaeth nifer o reolwyr ac aelodau'r Cyngor amau ei gost a'i raddfa, rhai ar sail ei bod hi'n ddyletswydd statudol ar y Llyfrgell Genedlaethol i ymgymryd â'r hyn yr oedd yn cynnig ei wneud, heb yr angen am ein cyfraniad ariannol ni. Cafwyd gwybod bod gwasanaeth llyfrgelloedd Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau nad oedd ganddo ddiddordeb mewn derbyn y casgliad llyfrau a bod Plas Tan y Bwlch, ar y gorau, yn ddatrysiad tymor byr yn unig o ran lleoliad i'r casgliad llyfrau. Esboniodd David Elis-Williams y gwahaniaeth hanfodol rhwng archifau Coleg Harlech fel sefydliad, yr oedd y Llyfrgell Genedlaethol yn dymuno'u catalogio gan eu bod o arwyddocâd cenedlaethol, a'r casgliad cyffredinol mwy o lawer o lyfrau yn ein llyfrgell, nad oedd o fawr ddim, neu ddim, diddordeb i'r Llyfrgell Genedlaethol. Ar y sail honno, **cynigiodd mai tair rhan benodol yn unig o gynllun gweithredu'r Llyfrgell Genedlaethol – symud rhannau allweddol o'r archif a'r dodrefn, eu gosod mewn blychau a'u storio; cynllunio a chynnal gwerthu/arwerthu llyfrau diangen; a threfniadau ar gyfer cael gwared ar unrhyw lyfrau diangen a oedd yn weddill – y dylai gael eu hariannu, am gost o £4,500 yn gyfan gwbl. Mewn pleidlais, roedd 4 pleidlais o blaid, 2 yn erbyn, ac ataliwyd 1 pleidlais ar y cynnig hwn, a gafodd ei basio. Felly, cytunodd y Cyngor ar y canlynol o ran safle Harlech, yn dilyn adolygiad o'r dogfennau gerbron y Cyngor a thrafodaeth arnynt:**

- i) Dylai Grŵp Llywio Harlech geisio terfynu'r brydles â Theatr Ardudwy yn gynnar ar sail cytundeb y naill barti a'r llall ar setliad ymlaen llaw, wedi'i hardystio gan Syrffewr Cymwysedig, er mwyn dod â materion i derfyn trwy setliad llawn a therfynol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol;
- ii) Bod yr awdurdod yn cael ei ddirprwyo i Grŵp Llywio Harlech geisio trafod setliad a oedd yn is, yn ddelfrydol, na'r ffigur a gynigiwyd i ddechrau mewn llythyr diweddar gan Gadeirydd Theatr Ardudwy, gyda'r ffigur hwnnw gerbron cyfarfod nesaf y Cyngor i'w ystyried, gan gadw mewn cof bob amser bod meddiant gwag adeilad y theatr yn nod y dylid anelu ato gorau po gyntaf;
- iii) Bod yr argymhelliad bod meddiant gwag adeilad y theatr yn cael ei gyflawni gyntaf, cyn cymryd camau i sefydlu ymgyrch farchnata ehangach ar gyfer y safle a gwahodd cynigion gan fuddsoddwyr, yn cael ei gymeradwyo ar sail deall y gallai hynny olygu bod cynigion oedd wedi dod i law eisoes yn cael eu tynnu'n ôl maes o law;
- iv) Bod y cynllun gweithredu a gynigiwyd gan Lyfrgellydd Cenedlaethol Llyfrgell Genedlaethol Cymru ynghylch cynnwys y llyfrgell a'r archif yn Harlech yn cael ei gymeradwyo'n rhannol, yn benodol y swm o £4,500 tuag at dair yn unig o'r tasgau a amlinellwyd yn ei chynnig.

5. Cynllun Ariannol Tair Blynedd arfaethedig, 2018-19 i 2020-21

Esboniodd Mark Baines fod y papur yn seiliedig ar gynnydd o 1% y flwyddyn yng nghyllid Lywodraeth Cymru, wedi'i gadarnhau ar gyfer 2018-19 ond wedi'i gymryd yn ganiataol yn unig ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol. Dangoswyd buddion tymor hwy yr ymdrechion a fu oherwydd ailstrwythuro'r staff yn 2017 yma, sef bod gwargedion yn cael eu rhagweld ar gyfer pob blwyddyn. Roedd y ddogfen wedi'i dosbarthu ymlaen llaw i aelodau'r Pwyllgor Adnoddau, gan eu galluogi i roi sylwadau arno a chodi cwestiynau i'w hateb yn llawnach yn y cyfarfod o'r Pwyllgor a ohiriwyd (y byddai'n cael ei gynnal bythefnos yn ddiweddarach). Fodd bynnag, nid oedd unrhyw bwyntiau a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor wedi cwestiynu'r dull yn y ddogfen, na'r tueddiadau wrth ei wraidd. Pwysleisiodd David Elis-Williams, fel Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau, natur gadarnhaol cael cyllideb â gwarged o'n blaen, nid oedd ganddo faterion o bwysigrwydd sylfaenol i'w codi yn sgil cael cyfle i drafod materion gyda'r Pennaeth Cwricwlwm ac Adnoddau ymlaen llaw, a chynigiodd y dylid cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2018-19 fel yr oedd, gan ganiatáu i'r Pwyllgor Adnoddau ymholi am fanylion neu esboniadau pellach yn ei gyfarfod nesaf.

Mewn ateb i'r cwestiynau a godwyd yn y cyfarfod, roedd y cynnydd o 2% mewn cyflog oherwydd costau byw (wedi'i gynnwys yn ffigurau 2018-19) yn seiliedig ar gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru. Cafodd swm o £30,000 ei gynnwys yng nghyllideb 2018-19 ar gyfer setliad gyda Theatr Ardudwy, ond ni chynhwyswyd swm ar gyfer y cydweithredu â Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Cymeradwywyd y cyllidebau refeniw a chyfalaf ar gyfer 2018-19, a nodwyd tuedd y gwargedion yn y ddwy flwyddyn ariannol ganlynol yn gymeradwyo.

6. Adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2018

Yn sgil tendr, argymhellodd y Pwyllgor fod y Cyngor yn cymeradwyo ailbenodi TIIA fel archwilwyr mewnol y sefydliad am gyfnod tair blynedd (2018-19 i 2020-21). **Cadarnhaodd y Cyngor y penodiad hwn.** Roedd adroddiad archwilio mewnol cadarnhaol ar y cyfan ar gyfer 2017-18 wedi'i ystyried yn fanwl yng nghyfarfod y Pwyllgor. Wrth astudio'r fersiwn diweddaraf o'r Gofrestr Risg, roedd y Pwyllgor wedi gwrthateb fod Cofrestr fwy cynhwysfawr yn adnodd monitro a fyddai'n well nag un rhy fyr, mewn ateb i'r sôn gan y Cyngor y dylid ystyried Cofrestr Risg fyrrach fel opsiwn, yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor.

7. Cynigion gan y Grŵp Ymgyrchu, Aelodaeth a Chyfathrebu

Cyflwynodd Cath Hicks y papur hwn, gan ddechrau gyda'r cynigion ynghylch adolygu'r diffiniadau o aelodaeth. Byddai'r rhain yn cael eu rhoi ar waith fesul dwy haen, gyda rhai yn dechrau o'r flwyddyn ariannol newydd ymlaen, ar 1 Awst, a diffiniadau eraill mwy cymhleth yn ymwneud yn benodol â'r ffordd yr oedd canghennau'n cyd-fynd â'r strwythur sefydliadol ehangach yn cael eu hystyried yn y dyfodol. **Cymeradwywyd hyn, gyda chais bod adroddiad yn y dyfodol ar aelodaeth a fyddai'n cael ei ddwyn gerbron y Cyngor yn datgan nifer yr aelodau presennol ym mhob categori aelodaeth.**

O ran cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer sefydlu a gweithredu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru (cynigion PCET), roedd ymateb y Grŵp Ymgyrchu, Aelodaeth a Chyfathrebu wedi'i ddosbarthu i aelodau Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales, gan eu hannog i gysylltu â'u Haelodau Cynulliad a'u Haelodau Seneddol mewn ymgyrch eiriolaeth rithwir ar bwysigrwydd dysgu gydol oes. Roedd dros 1,000 eitem o ohebiaeth eisoes wedi deillio o'r ymgyrch rithwir honno, gyda chyfraddau gweithgarwch yn gymharol is mewn etholaethau gwledig: byddai galwadau pellach yn atgoffa am weithredu yn cael eu dosbarthu i aelodau yn ystod yr ychydig ddiwrnodau oedd yn weddill cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau yr wythnos ganlynol. Byddai ymateb 'technegol' llawn gan y sefydliad (a ddosbarthwyd er gwybodaeth i holl aelodau'r Cyngor yn gynt yr wythnos honno) yn cael ei gyflwyno hefyd cyn y dyddiad cau hwnnw.

O ran ymateb drafft y Grŵp Ymgyrchu, Aelodaeth a Chyfathrebu i'r ymgynghoriad ar ddarparu ac ariannu strwythur dysgu oedolion yng Nghymru, byddai'r fersiwn gerbron y Cyngor yn cael ei newid o ganlyniad i gasgliadau penodol y daethpwyd iddynt yn y sesiynau Cynllunio Strategol yn gynt yn ystod y dydd ac yn cael ei defnyddio at ddibenion eiriolaeth ymhlith yr aelodau. **Byddai ymateb mwy cynhwysfawr y sefydliad i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru a'i 17 cwestiwn bellach yn cael ei baratoi, gyda'r nod o ddod â'r ymateb yn ôl i gyfarfod y Cyngor ym mis Medi i'w gymeradwyo'n derfynol.**

8. Gweithgarwch dilynol o sesiynau'r Diwrnod Cynllunio Strategol ac adborth ar gyfarfod y Cyngor

Byddai'r drafodaeth a'r casgliadau y daethpwyd iddynt yn gynt yn ystod y dydd ym Mhlas Tan y Bwlch yn cael eu hymgorffori mewn Cynllun Strategol diwygiedig ar gyfer y sefydliad, i'w cyflwyno yng nghyfarfod y Cyngor ddechrau Medi; byddai hwnnw hefyd yn cael ymateb llawn y sefydliad i ddarparu ac ariannu dysgu oedolion yng Nghymru (gweler cofnod 7 uchod). Teimlwyd yn gyffredinol fod y diwrnod wedi'i strwythuro'n dda, gyda chyfraniad cadarnhaol gan bawb, a gwerthfawrogwyd yn benodol ddiddordeb a chyfraniadau'r staff a oedd yn bresennol. Bu'r lleoliad yn un priodol ar gyfer menter o'r fath ac ar gyfer cyfarfod y Cyngor hefyd.

9. Cadarnhad i'r dyddiadur o ddyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfod arall i ddod

- 2018 - Dydd Iau 6 Medi: Abertawe
- Dydd Iau 22 Tachwedd: Wrecsam
- 2019 - Dydd Mawrth 29 Ionawr: Caerdydd
- Dydd Llun 4 Mawrth: Y Drenewydd
- Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – Dydd Sadwrn 23 Mawrth: lleoliad yng ngogledd Cymru
- Dydd Gwener 17 Mai: Glyn Ebwy
- Dydd Iau 18 Gorffennaf: Cyffordd Llandudno

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeirnod	Enw'r cofnod	Gweithred y cytunwyd arni	Gweithredu gan bwy	Gweithredu erbyn pryd
Cofnod 2	Materion gweithdrefnol yn ymwneud ag aelodaeth y Cyngor a'r Llywyddiaeth	Byddai'r Clerc yn edrych ar gyfnod aelodau'r Cyngor mewn swydd o safbwynt cyfansoddiadol.	ST	Medi 2018
		Byddai cylch gwaith a swydd-ddisgrifiad ysgrifenedig yn cael eu paratoi ar gyfer rôl y Llywydd ar gyfer cyfarfod y Cyngor ym mis Medi.	ST / JG / SR / TS / KR	Medi 2018
Cofnod 4	Diweddariad ar safle Coleg Harlech	<p>Byddai Grŵp Llywio Harlech yn ceisio terfynu'r brydles â Theatr Ardudwy yn gynnar ar sail cytundeb y naill barti a'r llall ar setliad ymlaen llaw, wedi'i hardystio gan Syrfëwr Cymwysedig, er mwyn dod â materion i derfyn trwy setliad llawn a therfynol (ac na all y naill barti na'r llall wneud hawliadau yn y dyfodol) cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Dirprwywyd yr awdurdod i Grŵp Llywio Harlech geisio trafod setliad a oedd yn is, yn ddelfrydol, na'r ffigur a gynigiwyd i ddechrau mewn llythyr diweddar gan Gadeirydd Theatr Ardudwy, gyda'r ffigur hwnnw gerbron cyfarfod nesaf y Cyngor i'w ystyried, gan gadw mewn cof bob amser bod meddiant gwag adeilad y theatr yn nod y dylid anelu ato gorau po gyntaf.</p> <p>Cymeradwywyd yr argymhelliad bod meddiant gwag adeilad y theatr yn cael ei gyflawni gyntaf (cyn cymryd camau i sefydlu ymgyrch farchnata ehangach ar gyfer y safle i wahodd cynigion gan fuddsoddwyr).</p> <p>Cymeradwywyd yn rhannol yn unig y cynigion gan Lyfrgellydd Cenedlaethol Llyfrgell Genedlaethol Cymru ynghylch cynnwys y llyfrgell a'r archif yn Harlech, sef y swm o £4,500 tuag at osod deunyddiau archif y sefydliad mewn bocsys a'u storio,</p>	Yn amrywiol ynghylch Harlech: KR / MB / Grŵp Llywio Harlech / JG / SR / TS	<p>Awst 2018</p> <p>Medi 2018</p> <p>Awst 2018</p>

		paratoi ar gyfer gwerthu/arwerthu a gwaredu'r casgliad llyfrau.		
Cofnod 7	Cynigion gan y Grŵp Ymgyrchu, Aelodaeth a Chyfathrebu	<p>Bod adroddiad yn y dyfodol ar aelodaeth yn cael ei ddwyn gerbron y Cyngor yn datgan nifer yr aelodau presennol ym mhob categori aelodaeth.</p> <p>Byddai ymateb llawn y sefydliad i ddogfen yr ymgynghoriad ar Ddysgu Oedolion yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru yn cael ei baratoi, gyda'r nod o ddod â'r ymateb yn ôl i gyfarfod y Cyngor ym mis Medi i'w gymeradwyo.</p>	CH KR / CH	Tachwedd 2018 Medi 2018
Cofnod 8	Gweithgarwch dilynol o sesiynau'r Diwrnod Cynllunio Strategol	Byddai Cynllun Strategol diwygiedig ar gyfer y sefydliad yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Cyngor ddechrau Medi.	KR et alia	Medi 2018